# Y Gronfa Radio Cymunedol

## Nodiadau cyfarwyddyd

Diwygiwyd 27 Tachwedd 2023 - Fersiwn 20

# Cynnwys

## Adran


1. Cyflwyniad .... 3
2. Y Gronfa Radio Cymunedol ("y Gronfa") .... 4
   - Cefndir .... 4
   - Beth yw diben y Gronfa? .... 4
   - Beth NA fydd y Gronfa'n talu amdano? .... 4
   - Am faint gallwn ni wneud cais? .... 5
   - Meini prawf cymhwyso ceisiadau .... 5
   - Trwyddedeion sy’n dal dwy neu fwy o drwyddedau radio cymunedol .... 6
   - Gorsafoedd cymunedol yng Nghymru .... 7
3. Y broses ymgeisio a dyfarnu .... 8
   - Gwybodaeth ymgeisio .... 8
   - Sut i wneud cais .... 8
   - Llenwi'r ffurflen gais .... 8
   - Penderfyniadau Grant .... 9
   - Beth sy'n digwydd nesaf? .... 10
   - Gwybodaeth ychwanegol .... 10
   - Diogelu data .... 11

# 1. Cyflwyniad

Mae’r Gronfa Radio Cymunedol yn helpu i dalu am gostau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi cael eu trwyddedu gan Ofcom ac sy'n darlledu ar AM, FM neu drwy drwydded C-DSP ar amlblecs radio digidol.

**Dylai ymgeiswyr ddarllen y nodiadau cyfarwyddyd hyn yn llawn cyn gwneud cais.**

**Am y ddogfen hon**

Mae’r nodiadau cyfarwyddyd hyn ar gyfer trwyddedeion sy’n gwneud cais am y Gronfa Radio Cymunedol. Maen nhw’n cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- pwrpas y Gronfa;
- meini prawf cymhwysedd; a'r
- broses ymgeisio a dyfarnu.

Yn 2020-21, cafodd grantiau eu darparu fel cyllid brys i gynorthwyo gorsafoedd a oedd yn wynebu trafferthion ariannol difrifol o ganlyniad i’r Coronafeirws. **O 2021-22, bydd y Gronfa’n mynd yn ôl i dalu am gostau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi cael eu trwyddedu gan Ofcom, fel y nodir yn y nodiadau cyfarwyddyd hyn.**

# 2. Y Gronfa Radio Cymunedol ("y Gronfa")

## Cefndir

2.1 Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS") wedi gofyn i Ofcom weinyddu'r Gronfa. I gael rhagor o wybodaeth am Radio Cymunedol a'r Gronfa, gan gynnwys y swm sy'n cael ei neilltuo ar gyfer cyfnod penodol, ewch i'n gwefan.

2.2 Yn 2020-21, bydd grantiau wedi'u hariannu gan DCMS yn cael eu darparu fel cyllid brys i gynorthwyo gorsafoedd sy'n wynebu trafferthion ariannol difrifol o ganlyniad i'r coronafeirws. Ar gyfer 2021-22, mae DCMS wedi dweud y bydd y Gronfa'n mynd yn ôl i dalu am gostau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi cael eu trwyddedu gan Ofcom, fel y nodir isod. Dyma fydd y diben o hyd ar gyfer grantiau yn 2022-23 ac mewn rowndiau ariannu yn y dyfodol, oni nodir yn wahanol.

2.3 Mae DCMS hefyd wedi cadarnhau, o 2021-22 ymlaen, y bydd gorsafoedd Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol ("C-DSP") yn gymwys i gael grantiau ochr yn ochr â gorsafoedd radio cymunedol analog sydd eisoes yn bodoli, os yw'r orsaf yn darlledu ar amlblecs radio digidol ar ddyddiad eu cais.

## Beth yw diben y Gronfa?

2.4 Mae'r Gronfa wedi cael ei sefydlu i roi grantiau i helpu i dalu am gostau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi cael eu trwyddedu gan Ofcom. Mae'r swyddogaethau craidd hyn yn cynnwys:

- rheoli
- codi arian i gefnogi'r orsaf (e.e. grantiau, cyllid masnachol)
- gweinyddu
- rheolaeth ac adrodd ariannol
- gwaith allgymorth yn y gymuned
- trefnu a chefnogi gwirfoddolwyr

2.5 Bydd grantiau'n cael eu rhoi fel cyfandaliad unigol ac mae'n rhaid eu gwario o fewn y Cyfnod Gwariant Perthnasol fel a ddiffinnir yn y Cytundeb Grant, sef 14 mis fel arfer. Mae'r grantiau ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol sy'n darlledu ar hyn o bryd.

## Beth NA fydd y Gronfa'n talu amdano?

2.6 Ni all grantiau a ddyfernir gan y Gronfa dalu am y canlynol:

- Offer/gwariant cyfalaf (ar gyfer y swyddfa, stiwdio, trosglwyddo ayb)
- Cost cerbydau
- Treuliau gwirfoddolwyr
- Costau trwsio, adeiladu neu gynnal a chadw adeiladau
- Costau rhaglenni neu farchnata
- Biliau cyfleustodau
- Taliadau rhent a/neu forgais
- Ffioedd trwydded neu ffioedd hawlfraint (fel PPL/PRS neu ffioedd meddalwedd)

- Ffioedd sy’n daladwy i Ofcom (gan gynnwys ffioedd ymgeisio a thrwyddedau, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny)
- Grantiau ôl-weithredol h.y. i dalu am wariant sydd eisoes wedi digwydd
- Costau sy'n gysylltiedig â lansio gorsaf radio
- Costau sy’n ymwneud â math arall o drwydded sydd gan y trwyddedai, h.y. amlblecs radio digidol ar raddfa fach
- Cyllid ar gyfer ad-dalu benthyciadau
- Ffioedd cyfarwyddwyr cwmni
- Costau sydd wedi’u had-dalu neu sydd i’w had-dalu drwy gyllid gan awdurdodau cyhoeddus eraill neu gan y sector preifat
- Taliadau llog (gan gynnwys taliadau ffioedd gwasanaeth am lesoedd cyllid)
- Dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau

## Am faint gallwn ni wneud cais?

2.7 Nid oes terfyn ar y swm y cewch chi wneud cais amdano. Serch hynny, dylai ymgeiswyr hefyd ystyried datganiadau Panel y Gronfa Radio Cymunedol ynghylch rowndiau blaenorol. Mae’r rhain yn cynnwys rhestr o grantiau blaenorol, y swm cyfartalog a roddwyd yn y rownd honno, a ‘materion o bwys a gododd o gyfarfod y Panel’. Mae’r olaf yn cynnwys cyngor i ymgeiswyr ynghylch yr hyn mae Panel y Gronfa Radio Cymunedol (“y Panel”) yn chwilio amdano, yn ogystal â’r problemau cyffredin gyda cheisiadau.

2.8 Mae’r datganiadau i’w gweld ar dudalen y Gronfa Radio Cymunedol ar ein gwefan, o dan y pennawd ‘dyfarniadau grant diweddar’. Cofiwch nad yw’r datganiadau a ddarparwyd ar gyfer y tair rownd o gyllid brys yn 2020-21 yn berthnasol, gan fod diben y cyllid yn ystod y cyfnod hwn yn benodol i amgylchiadau’r cyfnod hwnnw.

2.9 Bydd angen i ymgeiswyr gyfiawnhau pam mae angen y swm y gwneir cais amdano arnyn nhw, ac esbonio beth fyddent yn ei wneud pe na baent yn cael cyfanswm y cyllid y gofynnir amdano.

## Meini prawf cymhwyso ceisiadau

2.10 Dim ond i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi cael eu trwyddedu gan Ofcom y gellir rhoi grantiau (nid yw gorsafoedd sydd wedi cael eu trwyddedu o dan Orchymyn Radio Cymunedol (Guernsey) 2013 yn gymwys i gael cyllid).

2.11 Mae gorsafoedd C-DSP, sydd wedi cael eu trwyddedu o dan Orchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019 bellach yn gymwys ar gyfer y Gronfa, yn ogystal â gorsafoedd sydd wedi cael eu trwyddedu i ddarlledu ar AM ac FM.

2.12 Rhaid i’r gorsafoedd sy’n ymgeisio fod ar yr awyr erbyn **dyddiad eu cais**, er mwyn i’r Panel ystyried eu cais. Dim ond i orsafoedd sydd wedi'u lansio y gellir talu'r arian.

2.13 Ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol analog, dylai fod o leiaf pymtheg mis ar ôl ar y drwydded o’r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Os oes llai na phymtheg mis ar ôl ar y drwydded, rhaid i’r trwyddedai fod wedi cyflwyno cais am estyniad i Ofcom erbyn y dyddiad cau. Nid oes dyddiadau dod i ben ar drwyddedau C-DSP. Yn y naill achos neu’r llall, rydym yn disgwyl i’r gwasanaethau barhau i ddarlledu drwy gydol cyfnod y grant os bydd cais yn llwyddiannus. Darllenwch y Cytundeb Grant, sydd wedi cael ei gyhoeddi ar wefan Ofcom ac a fydd yn cael ei anfon at yr ymgeiswyr llwyddiannus.

2.14 Dim ond cwmnïau sy’n dal y drwydded all gyflwyno ceisiadau, a dim ond iddyn nhw y dyfernir grantiau. Rhaid talu’r grant i gyfrif banc y cwmni sy’n dal y drwydded.

2.15 Fel rheol bydd dwy rownd o ddyfarniadau grantiau ym mhob blwyddyn ariannol. Fel rheol, os yw Trwyddedai wedi cael grant ar gyfer gorsaf benodol mewn un rownd gyllido, ni fydd yr orsaf honno’n cael ei hystyried ar gyfer grant arall mewn rownd arall yn yr un flwyddyn ariannol. Gall trwyddedai gorsaf o’r fath wneud cais yn y flwyddyn nesaf a’r blynyddoedd wedyn. Rhaid i drwyddedeion sydd wedi cael grant mewn rownd ariannu flaenorol ddweud sut cafodd y grant hwnnw ei wario cyn cyflwyno cais newydd. Mae’r ffurflen adroddiad grant ar gael ar dudalen y Gronfa Radio Cymunedol ar ein gwefan.

2.16 Rhaid i geisiadau ar y cyd gael eu cyflwyno gan ddau neu fwy o Drwyddedeion, er enghraifft i dalu ar y cyd am swydd a fydd yn cael ei rhannu. Serch hynny, dylid enwebu un Trwyddedai i reoli’r grant, a bydd yn cael ei dalu i’r cwmni hwnnw (ac ni fydd yn cael ei rannu rhwng dau neu fwy).

## Trwyddedeion sy’n dal dwy neu fwy o drwyddedau radio cymunedol

2.17 Efallai y bydd gan rai trwyddedeion drwydded radio cymunedol analog ac un neu fwy o drwyddedau C-DSP, neu fwy nag un drwydded C-DSP. Dim ond un cais y dylai’r trwyddedeion hyn ei wneud i’r Gronfa, ond dylent ddweud yn glir yn eu cais i ba drwydded(au) y mae’r cyllid yn berthnasol.

2.18 Yn eu cais, dylai trwyddedeion ddweud yn glir iawn sut byddai grant posib yn cael ei ddefnyddio ar draws y trwyddedau sydd ganddynt. Er enghraifft, os gwneir cais am grant i gefnogi rôl codi arian ar draws trwydded radio cymunedol analog a thrwydded C-DSP, dylai’r ymgeisydd egluro yn y cais y manteision i'r ddau wasanaeth trwyddedig, a sut byddai’r rôl yn cefnogi’r ddau wasanaeth yn effeithiol.

2.19 Yn yr un modd, oherwydd y bydd yn rhaid i drwyddedeion sy’n cael grant ddweud sut mae wedi cael ei wario hanner ffordd drwy gyfnod y grant ac ar ôl i’r cyfnod ddod i ben, byddai angen i’r adroddiadau hyn ddangos faint o grant sydd wedi cael ei rannu ar draws y trwyddedau sydd gan ymgeisydd, lle bo hynny’n berthnasol, yn unol â’r wybodaeth a ddarparwyd adeg gwneud y cais. Dim ond i dalu costau y cafodd y grant ei ddyfarnu ar eu cyfer y gellir defnyddio grant, fel y nodir yn y cytundeb grant, ac ni ellir defnyddio grant at unrhyw ddibenion eraill, gan gynnwys costau sy’n gysylltiedig â gwasanaethau a lansiwyd yn ystod cyfnod y grant.

2.20 Fodd bynnag, mae’n bwysig pwysleisio yn yr adran hon na ellir defnyddio cyllid i gefnogi’r broses o lansio gwasanaeth C-DSP newydd. Mae hyn yn dal yn wir hyd yn oed pan dim ond rhan o’r cyllid fyddai’n cael ei ddefnyddio at y diben hwn, a gweddill y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn unol â’r dibenion sydd wedi cael eu rhestru uchod.

2.21 Os yw trwyddedai yn cyd-ddarlledu ei wasanaeth radio cymunedol gan ddefnyddio trwydded DSP, rhaid i’r grant fod yn berthnasol i’w drwydded radio cymunedol analog neu ddigidol er mwyn i’r trwyddedai fod yn gymwys i wneud cais i’r Gronfa. Ni fydd ceisiadau sy’n ymwneud â thrwyddedau DSP nad ydynt yn drwyddedau C-DSP yn gymwys.

2.22 Os oes gennych chi gwestiynau penodol am y cyfyngiadau sy’n berthnasol i drwyddedeion sydd â dwy neu fwy o drwyddedau radio cymunedol, mae’n bwysig eich bod yn gofyn am eglurhad gan dîm y Gronfa Radio Cymunedol cyn i chi gyflwyno’ch cais, cyn y dyddiad cau, drwy ddefnyddio’r manylion cyswllt a nodir isod.

## Gorsafoedd cymunedol yng Nghymru

2.23 Yn unol â’r Hysbysiad Cydymffurfio a wnaed o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, pan fydd Ofcom yn gwneud penderfyniadau am ddyfarnu grant, rhaid iddo hefyd ystyried y canlynol:

a) Pa effeithiau, os o gwbl (ac a fydden nhw’n gadarnhaol ynteu'n negyddol), y byddai dyfarnu’r grant yn eu cael ar:

   i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg; a

   ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg;

b) sut byddai’r penderfyniad yn cael ei wneud neu ei weithredu (er enghraifft, drwy osod amodau grant) er mwyn iddo gael effeithiau cadarnhaol, neu ragor o effeithiau cadarnhaol, ar:

   i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg; a

   ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a

c) sut byddai’r penderfyniad yn cael ei wneud neu ei weithredu (er enghraifft, drwy osod amodau grant) er mwyn iddo beidio â chael effeithiau niweidiol, neu gael llai o effeithiau niweidiol ar:

   i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg; a

   ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

2.24 Yn unol â hynny, er mwyn helpu’r Panel i ystyried ceisiadau, gofynnir i unrhyw ymgeiswyr ar ran gorsafoedd yng Nghymru ddarparu gwybodaeth yn eu cais am effeithiau grant ar y Gymraeg, fel y nodir uchod.

2.25 Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn ddim llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

# 3. Y broses ymgeisio a dyfarnu

## Gwybodaeth ymgeisio

3.1 **Cyhoeddir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ym mhob rownd ariannu ar wefan Ofcom.**

3.2 Ni fydd ceisiadau a dogfennau ategol a fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried gan y Panel (yn amodol ar baragraff 3.15 y cyfarwyddyd hwn).

## Sut i wneud cais

3.3 Lawrlwythwch y ffurflen gais o wefan Ofcom. Gallwch wneud cais yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae ffurflenni cais yn y ddwy iaith ar gael ar y wefan. Dylai ceisiadau wedi'u cwblhau ac unrhyw ddogfennau ategol priodol gyrraedd Ofcom erbyn 5pm ar y dyddiad cau a hysbysebir.

3.4 Rydym yn argymell i chi gyflwyno eich cais drwy e-bost i communityradiofund@ofcom.org.uk. Dylai'r ffurflen gais a'r dogfennau ategol fod ar ffurf Word, RTF neu Excel, yn hytrach na PDF. Ni allwn dderbyn negeseuon e-bost gydag atodiadau html ac ni fydd unrhyw negeseuon e-bost gyda ffeiliau html yn cael eu derbyn gennym. Ni all ein system e-bost dderbyn negeseuon e-bost gydag atodiadau sy'n fwy na 10 Megabeit, felly os bydd y dogfennau yn eu cyfanrwydd yn fwy na hyn o ran maint, dylid anfon unrhyw ddogfennau ategol mewn e-bost ar wahân. Cysylltwch â'r Tîm cyn diwrnod y dyddiad cau os bydd gennych unrhyw broblemau.

3.5 Os oes rheswm cymhellol pam na all yr ymgeisydd gyflwyno'r ffurflen gais a/neu'r dogfennau ategol drwy e-bost, rhaid i chi gysylltu ag Ofcom o leiaf wythnos cyn y dymuna gyflwyno ei gais i drafod hyn ac o leiaf wythnos cyn unrhyw ddyddiad cau.

3.6 I gysylltu â thîm y Gronfa Radio Cymunedol, ffoniwch: 0207 981 3002, neu e-bostiwch: communityradiofund@ofcom.org.uk. Os byddwch yn cysylltu â ni dros y ffôn, bydd angen i chi adael neges llais a bydd rhywun yn eich ffonio'n ôl i drafod hyn.

## Llenwi'r ffurflen gais

3.7 Mae'r Panel yn dibynnu ar y ffurflen gais er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant. Mae'n bwysig felly bod y ffurflen gais yn ddigon manwl i'r Panel fedru deall yr orsaf a'r rhesymau pam ei bod yn gofyn am grant.

3.8 Dylech ddarparu eich manylion cyswllt ar dudalen glawr y ffurflen. Er mwyn sicrhau bod rhywun sydd â'r awdurdod priodol yn derbyn y Cytundeb Grant i'w lofnodi, gofynnwn am wybodaeth am gyfarwyddwr neu ysgrifennydd cwmni neu yn achos unrhyw sefydliad arall y person perthnasol ag awdurdod, ar dudalen glawr y ffurflen gais.

3.9 Mae cwestiynau 3.1-3.3 yn gofyn am enw eich cwmni a rhif cwmni (fel y caiff ei gadw gyda Thŷ'r Cwmnïau), lle bo hynny'n berthnasol, a rhif y drwydded, enw a lleoliad yr orsaf(oedd) yr hoffech iddi/iddynt elwa o'r grant, os caiff ei ddyfarnu. Dylech nodi cyfanswm y grant yr ydych yn gwneud cais amdano yng nghwestiwn 3.4.

3.10 Wrth ateb cwestiwn 3.10, nodwch ddiben ac amcanion pob gorsaf yr hoffech iddi elwa o'r grant. Mae'r Panel am ddeall yr hyn a wnewch, pwy yr ydych yn ei wasanaethu, a'r hyn yr ydych wedi'i gyflawni hyd yn hyn ac yn ceisio ei gyflawni yn eich cymuned.

3.11 Byddwch yn glir ac yn gryno ynglŷn â'r hyn y defnyddir yr arian ar ei gyfer yng nghwestiwn 3.6-3.8. Os ydych yn gwneud cais am grant at fwy nag un diben neu orsaf, sicrhewch eich bod yn glir ynghylch pa ddiben a/neu orsaf y mae eich atebion yn ymwneud â nhw. Rhowch wybodaeth am ddiben ac amcanion y grant, a’r amserlen ar gyfer gwario’r grant. Os yw'r cyllid a geisir ar gyfer staff, dylid darparu disgrifiad(au) swydd a dadansoddiad ariannol rhwng cyflog a chyflogwyr o ran costau (fel yswiriant gwladol y cyflogwr, pensiwn a ffi reoli). Defnyddir y cwestiynau hyn i ddiffinio diben y grant fel y nodir yn y Cytundeb Grant.

3.12 Er mwyn dangos pam fod angen y grant, dylai ymgeiswyr ddarparu manylion unrhyw newidiadau sylweddol yn amgylchiadau’r orsaf, megis newidiadau i sefyllfa ariannol yr orsaf nad ydynt efallai'n amlwg yn y cyfrifon cyhoeddedig diweddaraf.

3.13 Gellir cyflwyno cais at fwy nag un diben (dylid cynnwys manylion ar yr un ffurflen). Os nodir mwy nag un diben grant, dylai Trwyddedeion nodi blaenoriaeth pob un drwy eu rhestru yn nhrefn pwysigrwydd. Caiff y Panel roi grant i ymgeisydd i ariannu mwy nag un diben, ond mae'r flaenoriaeth gymharol y mae'r Panel yn ei rhoi i unrhyw ddiben yn gyfan gwbl ôl disgresiwn y Panel.

3.14 Hefyd, mae arnom angen gwybodaeth gyllidebol ac ariannol yr orsaf i'n helpu i ddeall anghenion y Trwyddedai. Ar gyfer gorsafoedd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, darparwch yr wybodaeth ychwanegol a nodir uchod mewn perthynas ag effeithiau grant ar y Gymraeg.

3.15 Wrth ystyried y ceisiadau a gyflwynwyd, bydd y Panel yn rhoi ystyriaeth i hanes cydymffurfio Trwyddedeion sy'n gwneud cais am gyllid. Gan hynny, mae cwestiwn 3.14 yn rhoi cyfle i'r Trwyddedai ddarparu unrhyw sylw sydd ganddo ynglŷn â'i hanes o gydymffurfio â rhwymedigaethau ac Amodau eu trwydded(au) darlledu a telegraffiaeth ddi-wifr, yn ogystal â'i gydymffurfiaeth ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth unrhyw grantiau blaenorol gan y Gronfa Radio Cymunedol.

3.16 Dim ond y canlynol y gall gwybodaeth ychwanegol ei gynnwys: disgrifiadau swydd, manylebau person, cynllun gwaith, cyllideb weithredu, cyfrifon cwmni (neu gyfwerth), neu adroddiad grant.

3.17 Os bydd gennym unrhyw ymholiadau am yr wybodaeth a dderbynnir, mae’n bosib y byddwn yn gofyn i'r Trwyddedai am eglurhad. Ni ellir cyflwyno unrhyw wybodaeth newydd ar ôl y dyddiad cau ar wahân i'r hyn y gofynnir amdano gan Ofcom (ac eithrio newid manylion cyswllt y Trwyddedai).

3.18 Bydd ceisiadau i'r Gronfa yn cael eu trin yn gyfrinachol ac ni fyddant yn cael eu cyhoeddi.

3.19 Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni dros y ffôn: 0207 981 3002, neu e-bostiwch: communityradiofund@ofcom.org.uk. Os byddwch yn cysylltu â ni dros y ffôn, bydd angen i chi adael neges llais a bydd rhywun yn eich ffonio'n ôl i drafod eich cwestiwn.

## Penderfyniadau Grant

3.20 Bydd yr holl geisiadau'n cael eu hystyried gan Banel Cronfa Radio Cymunedol Ofcom. Mae penderfyniadau'r Panel yn derfynol. Mae rhagor o wybodaeth am y Panel ar gael ar ein gwefan.

3.21 Byddwn yn hysbysu Trwyddedeion am ganlyniad y rownd dyfarnu ceisiadau. Bydd y cyswllt a enwir ar y ffurflen gais yn cael ei hysbysu. Bydd adborth cyffredinol ar y rhesymau pam y bu ceisiadau'n aflwyddiannus yn cael ei gyhoeddi mewn datganiad am y dyfarniadau.

3.22 Bydd penderfyniadau ar ddyfarniadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom. Cyhoeddir derbynnydd y grant, swm y dyfarniad a diben y grant.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

3.23 Mae grant yn amodol ar y Trwyddedai yn llofnodi Cytundeb Grant Cronfa Radio Cymunedol ("Cytundeb Grant") a gaiff ei anfon **trwy e-bost** (neu ddull eraill y cytunir arno gyda'r ymgeisydd) at y trwyddedai ynghyd â chais am fanylion banc (byddwn yn trafod gydag ymgeiswyr trwy'r post post sut i ymdrin â hyn). Bydd y Cytundeb Grant yn cadarnhau bod y Trwyddedai'n derbyn y grant ar y sail y bydd at y diben a ddisgrifir yn yr Atodiad i'r Cytundeb Grant, ac yn unol â'r holl amodau a nodir yn y Cytundeb Grant. I gael gwybodaeth am gyfrifoldebau a thelerau eraill y grant, gweler y templed Cytundeb Grant, a gyhoeddir ar wefan Ofcom.

3.24 Fel arfer rydym yn defnyddio Adobe Sign i lofnodi'r Cytundeb Grant. Dim ond porwr gwe a chyfeiriad e-bost fydd ei angen ar y trwyddedai i ddefnyddio hwn. Bydd cyfarwyddiadau ar sut y bydd hyn yn gweithio yn cael eu nodi yn yr e-bost sy'n rhoi gwybod i drwyddedeion am ganlyniad y cylch dyfarnu ceisiadau.

3.25 Os caiff grant ei ddyfarnu, bydd yn ofynnol i'r Trwyddedai ddefnyddio'r grant o fewn cyfnod penodol o amser (sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Grant).

3.26 Ar ôl i'r Cytundeb Grant a'r ffurflen manylion banc wedi'u cwblhau gael eu dychwelyd i'r Tîm, dylid gwneud trefniadau i'r grant gael ei drosglwyddo trwy BACS i gyfrif banc y Trwyddedai.

3.27 Mae'n rhaid talu grantiau yn y flwyddyn ariannol y gwneir y dyfarniad ynddi.

3.28 Bydd yn ofynnol i drwyddedeion sy'n derbyn grant adrodd am sut y mae wedi cael ei wario hanner ffordd drwy ddaliadaeth y grant, ar ôl i'r ddaliadaeth ddod i ben, a (os yn gwneud cais am grant pellach o fewn daliadaeth y grant presennol) gydag unrhyw gais am grant yn y dyfodol. Os na wneir adroddiad boddhaol, mae'n bosib y bydd Ofcom yn gofyn i'r grant gael ei ad-dalu ac ni fydd fel arfer yn ystyried gwneud grant pellach i'r Trwyddedai.

3.29 Os nad yw grant wedi cael ei wario yn unol â'r diben y cytunwyd arno, neu os nad yw Trwyddedai wedi cydymffurfio ag amodau cyllido eraill, mae'n bosib y bydd angen ad-dalu'r grant i Ofcom ac ni fydd fel arfer yn ystyried gwneud grant pellach i'r Trwyddedai. Ni chaniateir newidiadau dilynol i ddiben y grant unwaith y bydd y Cytundeb Grant wedi'i lofnodi.

## Gwybodaeth ychwanegol

3.30 Mae Ofcom yn disgwyl i Drwyddedeion cynyddu ymwybyddiaeth eu cymuned o weithgareddau a gefnogir gan y Gronfa, e.e. trwy gyhoeddi datganiad ar eu gwefan neu drwy gyhoeddiadau ar yr awyr.

3.31 Gall diben a chwmpas grantiau gan y Gronfa amrywio o flwyddyn i flwyddyn a gellir amrywio'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn unol â hynny. Mae'n bosib y bydd y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn newid yn y dyfodol. Cynghorir ymgeiswyr i wirio gwefan Ofcom am y fersiynau diweddaraf o'r Nodiadau Cyfarwyddyd a'r ffurflen gais.

## Diogelu data

3.32 Mae arnom angen yr wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen hon er mwyn cyflawni ein dyletswyddau trwyddedu o dan Ddeddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003. Gweler Datganiad Preifatrwydd Cyffredinol Ofcom i gael rhagor o wybodaeth am sut mae Ofcom yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol a'ch hawliau cyfatebol.